# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Rheoliadau: gweithdrefn a chyngor*

### 48 Rheoliadau: gweithdrefn

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae offeryn statudol yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru os yw'n cynnwys y canlynol yn unig—

(a) rheoliadau o dan adran 44(1)(b) nad ydynt yn gwneud darpariaeth sy'n diwygio neu'n diddymu deddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn Deddf Seneddol neu mewn Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) rheoliadau o dan adran 52.

(3) Ni chaniateir i unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Rhan hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 48 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### 49 Gofyniad i gael cyngor ynghylch cynigion i wneud rheoliadau

(1) Cyn gosod rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 48(3), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gofyn am gyngor gan y corff cynghori ynghylch y cynnig i wneud y rheoliadau, a

(b) ystyried cyngor y corff cynghori.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/05/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Rheoliadau: gweithdrefn a chyngor yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan y corff cynghori o dan yr adran hon, rhaid iddynt bennu cyfnod rhesymol y mae'n rhaid darparu'r cyngor oddi fewn iddo.

(3) Rhaid i'r corff cynghori ddarparu'r cyngor o fewn y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i gyngor y corff cynghori nodi'r rhesymau dros y cyngor.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyngor y corff cynghori cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

(6) Os yw'r rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud darpariaeth wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y corff cynghori, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol sy'n nodi'r rhesymau paham y gwnaed hynny.

(7) Nid yw'r adran hon yn gymwys i reoliadau o dan adran 44.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 49 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 50 Cyngor ynghylch rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau

(1) Pan fo'r corff cynghori yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 29 sy'n newid targed allyriadau 2050 neu reoliadau o dan adran 30 sy'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim, rhaid i'r cyngor gynnwys barn y corff cynghori ynghylch—

(a) a yw'r targed a gynigir gan Weinidogion Cymru y targed uchaf y gellir ei gyflawni, a

(b) os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(2) Pan fo'r corff cynghori yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 31 sy'n gosod neu'n newid cyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol, rhaid i'r cyngor gynnwys barn y corff cynghori ynghylch—

(a) lefel briodol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod;

(b) i ba raddau y dylid cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod—

(i) drwy ostwng swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr, neu

(ii) drwy ddefnyddio unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod yn unol â rheoliadau o dan adrannau 33 a 36;

(c) y cyfraniadau at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod y dylai'r naill a'r llall o'r canlynol eu gwneud—

(i) y sectorau o economi Cymru y mae cynlluniau masnachu yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd);

(ii) y sectorau o economi Cymru nad yw cynlluniau o'r fath yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd);

(d) y sectorau o economi Cymru lle ceir cyfleoedd penodol i wneud cyfraniadau at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/05/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Rheoliadau: gweithdrefn a chyngor yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Pan fo'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, rhaid i'r corff cynghori roi sylw i'r materion a grybwyllir yn adran 32(3).

(4) Yn is-adran (2), mae i "cynllun masnachu" yr ystyr a roddir i "trading scheme" gan adran 44 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 50 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/05/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Rheoliadau: gweithdrefn a chyngor yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.